



**AROLWG 2013
O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMURU**

ADRODDIAD CYNNYDD

IONAWR 2012

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE
Ffôn: +44 (0)29 20395031
Rhif ffacs: +44 (0)29 20395250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi amlygu unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd, sef www.comffin-cymru.gov.uk

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

**AROLWG 2013
O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU**

ADRODDIAD CYNNYDD

IONAWR 2012

**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 3(2C) Deddf
Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf
Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011**

Y Llefarydd
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA

24 Ionawr 2012

Annwyl Mr Cadeirydd

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn") mewn perthynas â pharatoi'r adroddiad ffiniau sydd i'w gyflwyno erbyn 1 Hydref 2013. Fel y gwyddoch, dan adran 3(2C), mae'n ofynnol i chi gyflwyno ein hadroddiad gerbron y Senedd.

Cynnydd hyd yn hyn

2. Ar 4 Mawrth 2011, gwnaethom gyhoeddi dechrau arolwg 2013 o'r etholaethau seneddol yng Nghymru trwy gyhoeddi newyddlen a oedd yn crynhoi'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar etholaethau seneddol yng Nghymru (h.y. lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 30 ac i bob etholaeth fod o fewn 5% o gwota'r DU).
3. Trefnwyd bod data etholwyr 2011 ar gyfer pob awdurdod unedol ac adran etholiadol yng Nghymru ar gael ar yr un diwrnod.
4. Cynhaliwyd cyfarfod â'r pleidiau gwleidyddol cymwys yng Nghymru ar 20 Ebrill 2011 i'w cyfarwyddo am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth a gweithrediad ac amserlen yr arolwg. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod ein bod yn bwriadu cyhoeddi ein cynigion cychwynnol ar 6 Medi 2011.
5. Ar 3 Awst 2011, gwnaethom gyhoeddi newyddlen yn esbonio, am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith y Comisiwn, bod dau o'r Comisiynwyr, sef Mr Paul Wood a Mr John Bader, wedi mynegi eu bwriad i ymddiswyddo ac y byddai camau'n cael eu cymryd i benodi Comisiynwyr newydd. Oherwydd hynny, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn gohirio cyhoeddi ein cynigion cychwynnol tan fis Ionawr 2012.
6. Penodwyd dau Gomisiynydd newydd, Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert McNabb, ar 4 Hydref 2011.
7. Ym mis Rhagfyr 2011, ymddiswyddodd Mr Edward Lewis fel Ysgrifennydd y Comisiwn, am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith y Comisiwn. Dechreuodd ei olynydd, Mr Benjamin Whitestone, yn y swydd ar 19 Rhagfyr 2011.
8. Cyhoeddwyd ein cynigion cychwynnol yn Gymraeg a Saesneg ar 11 Ionawr 2012.

Y Camau Nesaf

9. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cychwynnol ar 11 Ionawr 2012.

10. Cynhelir pum gwrandawriad cyhoeddus mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru. Bydd gwasanaeth cyfieithu dwyieithog ar gael ym mhob gwrandawriad cyhoeddus. Mae dyddiadau a lleoliadau'r gwrandawriadau cyhoeddus fel a ganlyn:

15/16 Chwefror, Abertawe
22/23 Chwefror, Caerdydd
29 Chwefror/1 Mawrth, Wrecsam
7/8 Mawrth, Caernarfon
20/21 Mawrth, Llandrindod

11. Daw'r cyfnod cychwynnol ar gyfer cynrychiolaethau i ben ar 4 Ebrill 2012.
12. Yna, cyhoeddir y cynrychiolaethau cychwynnol a'r trawsgrifiadau o'r gwrandawriadau cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg a bydd cyfnod o bedair wythnos yn dilyn pan ellir cyflwyno sylwadau ar y cynrychiolaethau cychwynnol.
13. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, efallai y bydd yn briodol cyhoeddi cynigion diwygiedig. Yna, byddai cyfnod ymgynghori pellach yn cael ei gynnal.
14. Rydym yn hyderus y caiff yr argymhellion terfynol eu cyhoeddi ar neu cyn 1 Hydref 2013.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Lloyd Jones

**Dirprwy Gadeirydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru**

24 Ionawr 2012

